**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-2983-21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

27 Medi 2021

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) 2021**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) ("yr offeryn") uchod o dan bwerau a roddwyd gan:

- Erthygl 144(6) o, a pharagraff 2 o Atodiad 6 i Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, yn cael eu cymhwyso,;

Mae'r ddeddfwriaeth weithredu a wnaed ddiwedd 2020 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn pennu "cyfnod graddoli trosiannol" er mwyn i reolaethau ar fewnforion SPS o'r UE allu cael eu cyflwyno dros gyfnod o nifer o fisoedd. Diben eu graddoli yw er mwyn i sectorau masnach a seilwaith y rheolaethau allu bod yn barod ar gyfer y gofyn i gynnal rhagor o wiriadau bioddiogelwch, sef un o ganlyniadau'r penderfyniadau i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn yn diwygio, yng Nghymru, y dyddiad a bennwyd fel diwedd y cyfnod graddoli trosiannol, fel ag y mae'n ymwneud â gwiriadau dogfennol ar gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid a rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid ac mae'n gohirio'r gofyn i hysbysu ymlaen llaw am gynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid. Bydd yr Offeryn yn diddymu'r gofyniad hefyd am dystysgrifau iechyd yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol, mewn perthynas â Lloegr yn unig. Caiff y ddeddfwriaeth a ganlyn ei diwygio:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

#

- Rheoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu chymhwyso;
- Rheoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021.

Heb y diwygiadau hyn, bydd yn ofynnol, o 1 Hydref 2021 ymlaen, i fusnesau mewnforio ac allforio ym Mhrydain Fawr a'r UE gydymffurfio â gofynion y rheolaethau SPS fel y'u nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth.

Bydd yr estyniad yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y pandemig ymgyfarwyddo â gofynion cydymffurfio a systemau TG newydd y SPS a sicrhau bod y seilwaith a'r prosesau angenrheidiol ar waith mewn Mannau Rheoli Ffiniau, gan leihau mwy ar y risg o unrhyw darfu ar fasnach.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn hwn mewn perthynas â Chymru. Deallaf y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ Senedd y DU ar 28 Medi o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau na ddaw'r gofynion i rym o 1 Hydref 2021, mae'r Offeryn hwn yn mynd yn groes i'r confensiwn 21 diwrnod.

O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro deddfwriaeth o fewn amserlen dynn a chydag adnoddau prin, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod, os yw hynny'n briodol, yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan. Pe bai cydsyniad yn cael ei wrthod, byddai angen gwneud y cywiriadau hyn drwy ddeddfwriaeth a wneir gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, nid oes digon o amser ac adnoddau i fedru drafftio a gosod rheoliadau o'r fath ac iddynt ddod i rym mewn pryd. Os na roddir cydsyniad, daw'r gofyniad am wirio dogfennau ar rai mewnforion penodedig i rym.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**